

**GWEITHREDU CENEDLAETHOL NAD
YW'N CYNWYS STREICIO**

Cyfarwyddiadau – Cam 4

Gwybodaeth Bwysig

Ar 6 Mai 2015 disodlwyd holl gyfarwyddiadau a chanllawiau blaenorol NASUWT gan y cyfarwyddiadau a'r canllawiau hyn.

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i'r ysgolion a ganlyn:

- pob ysgol a gynhelir, gan gynnwys ysgolion cymunedol, ysgolion sylfaen, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion a gynorthwyir ac ysgolion a reolir;
- aelodau a gyflogir gan awdurdod lleol ar sail contract athro dan delerau'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol.

Cynnwys

Cyfarwyddiadau

Gwerthuso/Rheoli Perfformiad	3
Arsylwadau Ystafell Ddosbarth	3
Arolwg	5
Adroddiadau i rieni	5
Polisiau presennol ac arferion gwaith	5
Mentrau a pholisiau newydd	6
Cyfarfodydd a chalendr amser a gyfarwyddir yr ysgol	6
Cynlluniau gwersi	7
Gohebiaeth e-bost	8
Amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA)	8
Amser arwain a rheoli	9
Amser penodol ar gyfer gwaith pennaeth	10
Cyflenwi absenoldebau	10
Amser a enillwyd	11
Goruchwyliaeth amser cinio	11
Arolygu arholiadau	12
Tasgau gweinyddol a chlerigol	12
Cyflog a datblygiad cyflog	13
Gormod o lwyth gwaith a pholisiau marcio ac asesu	14
Gweithgarwch gwirfoddol y tu allan i sesiynau'r ysgol	17
Atodiad 1: Asesu effaith llwyth gwaith	18
Atodiad 2: Cyfarfodydd a chalendr amser a gyfarwyddir yr ysgol	19
Cynrychiolaeth aelodau	21
Manylion cyswllt yr NASUWT	23

ARFARNU/RHEOLI PERFFORMIAD

Cyfarwyddyd 1: Rhoddir cyfarwyddyd i aelodau beidio â chymryd rhan mewn unrhyw broses werthuso/rheoli perfformiad nad yw'n cydymffurfio â holl elfennau rhestr wirio gwerthuso/rheoli perfformiad yr NASUWT a'r protocol arsylwi yn y dosbarth.

ARSYLWADAU YSTAFELL DDOSBARTH

Cyfarwyddyd 2: Rhoddir cyfarwyddyd i aelodau beidio â chymryd rhan mewn unrhyw fath o arsylwi yn y dosbarth dan arweiniad rheolwyr mewn unrhyw ysgol sy'n gwrthod gweithredu polisi ar derfyn o gyfanswm o dri arsylwad ar gyfer pob diben o fewn amser cyfanswm o hyd at dair awr y flwyddyn.

Mae arsylwi yn y dosbarth yn cynnwys arsylwi sy'n deillio o deithiau cerdded dysgu, olrhain/cysgodi disgyblion, adolygiadau adrannol a phwnc, ymweliadau cyn arolwg, sesiynnau galw heibio, arolygiadau ffug ac unrhyw fenter arall sy'n cynnwys arsylwi yn y dosbarth.

Mae gan awdurdodau lleol yr hawl i ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder, ond nid oes ganddynt hawl statudol i arsylwi athrawon. Gan hynny, mae'r cyfarwyddyd hefyd yn cwmpasu arsylwi o ganlyniad i ymyrraeth awdurdod lleol neu gonsortiw.

Arolygiadau Estyn

Nid yw arsylwadau a gynhaliwyd gan arolygwyr Estyn fel rhan o arolwg Adran 28, sef arolwg llawn o'r ysgol, neu fel rhan o ymweliad monitro gan Estyn yn dilyn rhoi ysgol yng nghategoriâu 'angen gwella' neu 'annigonol', nac arolygiadau nad ydynt yn arolygiadau pwnc a thematig yn yr ysgol a gychwynwyd gan Estyn, yn cael eu cynnwys yn y cyfarwyddyd.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon

Nid yw'r cyfarwyddyd yn gymwys i arsylwi athrawon gan athrawon dan hyfforddiant, ar yr amod bod yr arsylwi, y rhaglen arsylwi a chanolbwynt yr arsylwi wedi cael eu cytuno gyda'r athrawon a fydd yn cael eu harsylwi.

Arsylwi cymheiriaid

Mae gan rai ysgolion broses o arsylwi cymheiriaid yn wirfoddol at ddibenion datblygiad proffesiynol. Pan fydd aelod yn credu y byddent yn elwa ar gael eu harsylwi gan gydweithiwr o'u dewis neu arsylwi cydweithiwr o'u dewis a chanlyniad yr arsylwi, mae'n fater syml o drafodaeth broffesiynol rhwng dau gydweithiwr, ac ni fyddai hyn yn dod dan y gyfarwyddyd. Fodd bynnag, os yw'r ysgol wedi gosod system arsylwi cymheiriaid neu wedi ffurfioli'r broses a bod yr arsylwadau yn cael eu cofnodi, eu logio a/neu eu bwydo i mewn i'r broses fonitro, yna byddai'r rhain yn cael eu hystyried fel arsylwadau ffurfiol a byddent yn cael eu cwmpasu gan y cyfarwyddyd.

Athrawon sydd newydd gymhwyso ac sydd ar eu cyfnod sefydlu

Nid yw'r cyfarwyddyd yn gymwys yn awtomatig i athrawon newydd gymhwyso yn eu blwyddyn sefydlu. Fodd bynnag, ni ddylent fod yn destun arsylwi anghyfyngedig a gormodol. Un meincnod ar gyfer yr hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn rhesymol yw arsylwi yn ystod y pedair wythnos gyntaf yn y swydd, ac yna un arsylwad fesul hanner tymor yn yr ysgolion sy'n gweithredu blwyddyn tri thymor. Mae hyn yn golygu cyfanswm o chwe gwaith yn ystod y flwyddyn gyntaf ar gyfer y rhai sy'n gweithio'n llawn amser a pro rata ar gyfer y rhai sy'n gweithio'n rhan amser. Dylai unrhyw athro newydd gymhwyso sy'n cael mwy o arsylwi na hyn gysylltu â'u hundeb ar unwaith am gyngor.

Gweithdrefnau gallu

Fel rhan o'r gefnogaeth a gynigir iddynt, dylai aelodau ar weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol gael swm wedi ei ddiffinio o arsylwi yn yr ystafell ddosbarth, gydag adborth wedi ei strwythuro. Dylid trafod faint o arsylwi a fydd yn digwydd gyda'r aelod a gweithiwr achos yr undeb sy'n rhoi cefnogaeth a chynghor iddo/iddi yn y broses. Os nad yw hyn wedi digwydd neu os nad yw'r aelod wedi cysylltu â'r NASUWT am gyngor a chefnogaeth, dylid gwneud hyn fel mater o frys.

Ysgolion mewn categori Estyn

Mae'n annerbyniol cynyddu arsylwi yn y dosbarth mewn ymateb i'r ffaith bod ysgol yn cael ei rhoi mewn categori fel 'annigonol' neu 'angen gwella' gan Estyn. Ansawdd, nid swm, yr arsylwi sy'n gwneud gwahaniaeth. Dylai ansawdd y sylwadau o fewn paramedrau'r cyfarwyddyd fod yn fodd o ymdrin ag unrhyw fater sy'n codi yn ymwneud ag addysgu a dysgu, ac felly mae'n rhaid cymhwysu'r cyfarwyddyd.

Cyfarwyddyd 3: Rhoddir cyfarwyddyd i aelodau beidio â chymryd rhan arsylwi yn y dosbarth mewn unrhyw ysgol sy'n gwrthod derbyn y bydd cyfyngiad o gyfanswm o dri arsylwad ar gyfer pob diben o fewn gyfanswm amser o hyd at dair awr y flwyddyn.

Dylai aelodau wrthod arsylwi eu cydweithwyr yn yr ystafell ddosbarth neu'r rhai maent yn rheolwyr llinell arnynt pan fo'r ysgol wedi methu â mabwysiadu darpariaethau rhestr wirio rheoli perfformiad a phrotocol arsylwi yn y dosbarth yr NASUWT, neu lle byddai cynnal yr arsylwi'n torri telerau'r cyfarwyddyd ar y terfyn ar arsylwi.

Cyfarwyddyd 4: Cyfarwyddir aelodau i beidio â threfnu neu gydweithredu ag unrhyw drefniant sy'n cynnwys disgyblion yn gwneud sylwadau ar, neu'n arsylwi ar waith, athrawon na bod yn rhan o wneud penderfyniad am rolau, cyfrifoldebau, cyflog a dyrchafiad athrawon.

Ni ddylai aelodau gytuno i gael eu harsylwi gan ddisgyblion na threfnu unrhyw weithgaredd na chydweithredu ag unrhyw weithgaredd a fyddai'n cynnwys disgyblion yn arsylwi athrawon neu'n rhoi sylwadau ar eu perfformiad.

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn berthnasol, er enghraifft, i:

- ddisgyblion yn arsylwi ar athrawon yn addysgu ac yn rhoi adborth ysgrifenedig neu adborth ar lafar ar yr hyn maent wedi ei arsylwi;
- pan fydd un neu ragor o ddisgyblion yn cael eu tynnu o'r dosbarth gan uwch reolwyr i wneud sylwadau ar y wers/yr athro;
- dosbarthu'r holiaduron i ddisgyblion sy'n ennyn sylwadau ar berfformiad neu agweddau athrawon, cynnal gwersi neu'r ffordd mae athrawon yn cyflawni eu cyfrifoldebau;
- disgyblion yn cymryd rhan mewn paneli cyfweld ar gyfer penodiadau mewnol neu allanol.

Cyfarwyddyd 5: Dylai aelodau wrthod cael eu harsylwi'n addysgu gan unrhyw un nad oes ganddo statws athro cymwysedig (SAC).

I fod yn effeithiol, dylai arsylwi yn y dosbarth fod yn gefnogol a datblygiadol, a chynnwys mewnbwn gan weithiwr proffesiynol cymwys sy'n gallu rhoi cyngor a chymorth priodol.

Dylai aelodau wrthod cael eu harsylwi gan unrhyw un nad oes ganddo statws athro cymwys.

Yr eithriad yw arsylwi gan arolygwyr Estyn yn ystod arolwg Adran 28.

AROLWG

Cyfarwyddyd 6: Cyfarwyddir aelodau i beidio â chymryd rhan mewn arolygiadau ffug a gomisiynwyd gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol.

Cyfarwyddir aelodau i beidio â chynnal na chydweithredu ag unrhyw waith paratoi ar gyfer arolwg Adran 28 Estyn a gomisiynwyd gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol.

Nid oes unrhyw ofniad statudol i athrawon gymryd rhan mewn arolygiadau ffug neu arolygiadau a gomisiynwyd o'r fath, felly ni ddylai aelodau gymryd rhan mewn trefniadau neu waith paratoi ar gyfer arolygiadau ffug.

Os yw'r ysgol yn comisiynu arolwg Adran 28 gan Estyn, yna dylai Cynrychiolwyr yr NASUWT nodi'n glir wrth y pennaeth na fydd aelodau'n cymryd unrhyw ran yn y gwaith o gynllunio neu baratoi ar gyfer yr arolygiadau. Dylid cysylltu â'r NASUWT ar unwaith hefyd i gael rhagor o gyngor a chefnogaeth.

ADRODDIADAU I RIENI

Cyfarwyddyd 7: Cyfarwyddir aelodau i gynhyrchu un adroddiad ysgrifenedig yn unig yn flynyddol i rieni.

Dylai athrawon gynhyrchu un adroddiad yn unig y flwyddyn ar gyfer pob un o'r disgyblion maent yn eu haddysgu sy'n gofyn iddynt wneud sylwadau am gynnydd a pherfformiad y disgyblion naill ai'n ysgrifenedig neu drwy ddefnyddio banc sylwadau electronig.

Gall ysgolion barhau i gynhyrchu adroddiadau interim ar gyfer pob disgybl neu grwpiau o ddisgyblion drwy gydol y flwyddyn ar yr amod y gellid cynhyrchu'r rhain yn weinyddol o'r data y mae ysgolion yn ei gasglu fel mater o drefn ar ddisgyblion, ac nad yw'n ofynnol i athrawon gael unrhyw gysylltiad uniongyrchol neu benodol â'r gwaith hwnnw.

POLISIÂU PRESENNOL AC ARFERION GWAITH

Cyfarwyddyd 8: Caiff aelodau gyfarwyddyd i wrthod cydymffurfio ag unrhyw bolisi nac arferion gweithio presennol dan arweiniad rheolwyr na aseswyd o ran effaith ar lwyth gwaith neu nad yw'r NASUWT wedi cytuno arnynt.

Mae gan bob athro a phennaeth yr hawl i gael cydbwysedd boddhaol rhwng gwaith a bywyd, sy'n eu helpu i gyfuno eu gwaith â'u diddordebau personol y tu allan i'r gwaith. Mae ganddynt hawl i fwynhau amser i ffwrdd o'r gwaith nad yw'n cael ei darfu gan weithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith.

Mae'n ddyletswydd ac yn gyfraith statudol a chyffredin dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch bod penaethiaid a llywodraethwyr yn rhoi sylw i iechyd a lles gweithwyr. Mae gofyn iddynt hefyd roi sylw i'r Rheoliadau Amser Gweithio.

Mae penaethiaid yn gyfrifol am sicrhau cydbwysedd gwaith/bywyd staff. Mae cyrff llywodraethu yn gyfrifol am gydbwysedd gwaith/bywyd y pennaeth.

Er mwyn bodloni eu rhwymedigaethau statudol a chytundebol, dylai ysgolion fod â strategaethau mewn grym i fonitro a gwerthuso pob polisi ac arfer i asesu eu heffaith ar lwyth gwaith ac oriau gwaith.

Gellir dod o hyd i'r ddarpariaeth hon ym mharagraffau 47.2 a 54.4 Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (STPCD) 2015. Dylid ei darllen yng nghyd-destun paragraffau 79-86 yr Arweiniad yn Adran 3 yr STPCD ar amser gweithio.

Mae tystiolaeth yn dangos na all athrawon sydd wedi blino yn sgil oriau gwaith hir ac sydd wedi eu llethu gan lwyth gwaith gormodol weithio mor effeithiol ag y byddent yn dymuno, na gwneud y gorau dros y plant a'r bobl ifanc maent yn eu haddysgu.

Mae dysgu yn swydd sy'n gofyn am ymroddiad mawr ac yn heriol iawn, ac mae athrawon angen amodau gwaith ac arferion gwaith i'w cefnogi wrth ddarparu'r addysg orau posibl i'r disgyblion maent yn eu haddysgu.

Lle mae arferion gwaith yn cefnogi cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd, mae llai o straen, absenoldeb a salwch, a chynnydd mewn hwyliau a chymhelliad a chanlyniadau gwell.

Dylai pob arfer gweithio a pholisïau presennol yr ysgol gael eu gwerthuso ar gyfer eu heffaith ar lwyth gwaith, amser gwaith a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith cyn eu gweithredu.

Mewn gormod o ysgolion, mae polisïau a gweithdrefnau'n cael eu cyflwyno a'u datblygu heb unrhyw ystyriaeth o'u goblygiadau i'r athrawon fydd yn gorfod eu gweithredu.

Mae gofyn i bob ysgol sicrhau fod athrawon a'r pennaeth yn gallu mwynhau cydbwysedd rhesymol o foddhaol rhwng gwaith a bywyd. Yr unig ffordd y gall hyn ddigwydd yw pan fydd ysgolion yn ystyried yn ofalus beth yw goblygiadau polisïau a gweithdrefnau a phan fydd ymgynghori gwirioneddol â staff wedi digwydd cyn cyflwyno polisïau newydd.

Dylai adolygiad rheolaidd o effaith llwyth gwaith polisïau hefyd fod yn nodwedd o arfer rheoli da.

Dylai aelodau'r NASUWT nodi pa bolisïau ac arferion gwaith presennol sy'n cynhyrchu llwyth gwaith gormodol a biwrocratiaeth.

Dylai cynrychiolwyr yr NASUWT roi gwybod i'r pennaeth am bolisïau ac arferion gwaith a nodwyd a gofyn am gynnal asesiad effaith llwyth gwaith fel mater o frys yn unol â'r canllawiau yn Atodiad 1.

Dylid rhoi gwybod i'r NASUWT ar unwaith.

Os nad yw'r materion wedi cael sylw o fewn deg diwrnod gwaith i'r dyddiad y rhoddwyd gwybod i'r pennaeth, ni fydd aelodau'r NASUWT yn gweithredu'r polisïau a'r arferion gwaith hynny o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

MENTRAU A PHOLISÏAU NEWYDD

Cyfarwyddyd 9: Caiff aelodau gyfarwyddyd i wrthod gweithredu unrhyw arfer neu bolisi gwaith newydd dan arweiniad rheolwyr na'u haseswyd ar gyfer effaith llwyth gwaith ac a fu'n destun ymgynghori a chytundeb â'r NASUWT.

Mae sail y cyfarwyddyd hwn yr un fath ag ar gyfer y cyfarwyddyd ar fentrau a pholisïau presennol. Fodd bynnag, yn yr achos lle mae menter neu bolisi newydd yn cael ei gynig neu ar fin cael ei weithredu gan yr ysgol, dylai aelodau wrthod gweithredu'r polisi nes ei fod wedi cael ei asesu am ei effaith ar lwyth gwaith a nes iddo fod yn destun ymgynghoriad a chytundeb gan yr NASUWT.

CYFARFODYDD A CHALENDR AMSER A GYFARWYDDIR YR YSGOL

Cyfarwyddyd 10: Cyfarwyddir aelodau i beidio â mynd i unrhyw gyfarfod y tu allan i amserau sesiynau'r ysgol nad ydynt o fewn yr amser a gyfarwyddir a lle nad oes calendr amser a gyfarwyddir wedi ei gyhoeddi ar gyfer y flwyddyn academaidd sydd wedi cael ei gytuno gyda'r NASUWT.

Rhaid i ysgolion gyhoeddi amserlen a chalendr amser a gyfarwyddir ar gyfer pob blwyddyn ysgol.

Dylai'r calendr nodi'r holl weithgareddau sydd i fod i ddigwydd yn y flwyddyn academaidd, er enghraifft, gweithgareddau dysgu y tu allan i'r dosbarth, cyfarfodydd, nosweithiau ymgynghori â rhieni a diwrnodau athrawon.

Dylai pob gweithgaredd yn y calendr sydd y tu allan i amserau sesiynau ysgolion fod o fewn dyraniad y 1,265 o oriau cytundebol o amser a gyfarwyddir lle mae gofyn i athrawon, ar wahân i'r rhai ar y golofn arweinyddiaeth, neu'r AUS fod ar gael i weithio. Dylai'r ysgol gael cyllideb amser a gyfarwyddir.

Mae calendrau ysgol yn galluogi'r ysgol i reoli amser a gyfarwyddir ac maent yn rhan o'r strategaeth i gwrdd â gofynion y ddarpariaeth gytundebol o ran cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

Mae'r calendr hefyd yn bwysig yng nghyd-destun bodloni gofynion deddfwriaeth cydraddoldeb, gan sicrhau, er enghraifft, y gall y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalwr gynllunio eu trefniadau.

Os nad yw eich ysgol wedi cyhoeddi calendr ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd hon, neu wedi cyhoeddi calendr ond nad oes cyllideb amser a gyfarwyddir, neu wedi cyhoeddi calendr ond na chytunwyd arno gyda'r NASUWT, ni ddylai aelodau fynd i unrhyw gyfarfod ar y calendr sydd y tu allan i amserau sesiynau'r ysgol nes bu ymgynghori â'r NASUWT a bod yr NASUWT yn cytuno arno.

Ceir canllawiau manwl ar y calendr a'r gyllideb amser a gyfarwyddir yn Atodiad 2.

Cyfarwyddyd 11: Dylai aelodau wrthod cytuno ar newidiadau i'r amserlen lle na roddir rhesymau addysgol cadarn dros y newid.

Dylid cyfyngu amrywiadau i'r amserlen addysgu i achosion pan fo rhesymau addysgol cadarn dros wneud hynny. Er enghraifft, gallai absenoldeb tymor hir aelod o staff sy'n dysgu dosbarthiadau a fydd yn sefyll arholiadau cyhoeddus olygu bod angen newid amserlen y dosbarthiadau hynny i gael eu dysgu gan athro ar staff yr ysgol yn hytrach na'r athro cyflenwi sy'n cyflenwi'r absenoldeb, neu yn sgil datblygiad addysgol o bwys. Dylai amrywiadau fod achlysuron prin iawn.

Os cynigir newidiadau i amserlen athro unigol neu amserlen grŵp o athrawon, ac na roddir rhesymau addysgol cadarn dros y newid, ni ddylai aelodau dderbyn y newidiadau.

Ni ddylai aelodau, ar unrhyw adeg, dderbyn unrhyw newid heb ymgynghori â'u hundeb.

Lle rhoddir rhesymau addysgol cadarn, dylai aelodau sicrhau bod y newidiadau wedi cael eu gwerthuso i gydnabod yr effaith ar eu llwyth gwaith ac oriau gwaith (gweler Atodiad 2).

CYNLLUNIAU GWERSI

Cyfarwyddyd 12: Cyfarwyddir aelodau i beidio â chyflwyno cynlluniau gwersi i aelodau o'r uwch dîm rheoli nac i unrhyw un sy'n gweithredu ar ran yr uwch dîm rheoli.

Mae cynllunio gwersi yn gyfraniad hanfodol at addysgu a dysgu effeithiol ac felly mae'n elfen allweddol o arfer proffesiynol.

Mae cynllunio'n cael ei ystyried yn y ffordd fwyaf priodol fel modd o fwrw'r maen i'r wal (h.y. addysgu a dysgu effeithiol) ac nid fel diben ynddo'i hun.

Mae athrawon yn atebol am gefnogi cynnydd a chyflawniad y disgyblion drwy eu defnydd o ddulliau addas o addysgu a dysgu, nid am y modd penodol y mae gweithgareddau a phrofiadau dysgu yn cael eu cynllunio. O ganlyniad, prif bwrpas cynlluniau gwersi yw cefnogi arfer proffesiynol athrawon yn hytrach na gwasanaethu fel modd y gellir eu dwyn i gyfrif am eu gwaith.

Mae'r cyfarwyddiadau ar gynllunio wedi eu cynllunio i fynd i'r afael â'r arfer cwbl ddiangen a sefydlwyd mewn rhai ysgolion lle mae gofyn i athrawon gyflwyno fersiynau electronig neu gopi caled o'u cynlluniau gwersi i aelodau o'r uwch dîm rheoli neu gydweithwyr sy'n gweithredu ar ran yr uwch dîm rheoli.

Mae ymdrechion yn cael eu gwneud mewn rhai amgylchiadau i gyfiawnhau'r arfer hwn ar y sail ei fod yn un o ofynion arolygu. Nid dyna'r achos yn bendant.

Dylai aelodau fod yn hyderus nad yw gwrthod cydymffurfio â cheisiadau o'r fath o ganlyniad i weithredu diwydiannol cyfreithlon mewn unrhyw ffordd yn anghyson â'u hymrwymiad i gynnal y safonau ymarfer ac ymddygiad uchaf posibl, a sicrhau bod diwallu anghenion dysgu disgyblion yn parhau i gynrychioli eu blaenoriaeth proffesiynol allweddol.

Gan hynny, dylai aelodau ddefnyddio eu barn broffesiynol eu hunain ynghylch natur cynllunio eu gwersi.

GOHEBIAETH E-BOST

Cyfarwyddyd 13: Cyfarwyddir aelodau i anfon ac ymateb i negeseuon e-bost sy'n gysylltiedig â gwaith yn ystod amser a gyfarwyddir yn unig.

Gall negeseuon e-bost fod yn ffordd effeithlon ac effeithiol iawn o gyfnewid gwybodaeth rhwng staff mewn ysgolion. Fodd bynnag, rhywbeth sy'n peri pryder cynyddol i'r aelodau yw camddefnyddio negeseuon e-bost, lle maent yn cael eu defnyddio i ddal athrawon i gyfrif, lle maent yn cynnwys gofynion y dylid eu darllen a'u hateb o fewn amser penodol a lle maent yn cael eu hanfon gyda'r nos yn ystod yr wythnos waith, ar benwythnosau ac yn ystod cyfnodau gwyliau naill ai gyda'r disgwyliad o ymateb yn ystod yr adegau hynny neu i roi pwysau ar athrawon.

Gan hynny, mae'r cyfarwyddyd hwn yn cyfyngu anfon ac ymateb i negeseuon e-bost i amser a gyfarwyddir.

Ni ddylai aelodau ymateb i negeseuon e-bost na'u hanfon y tu allan i'r amser hwnnw.

AMSER CYNLLUNIO, PARATOI AC ASESU (CPA)

Cyfarwyddyd 14: Dylai aelodau sicrhau eu bod yn cael yr isafswm cytundebol o 10% o amser CPA gwarantiedig ar eu hamserlen.

Bydd yr aelodau'n cyfeirio unrhyw fethiant i ddarparu'r amser at yr NASUWT i weithredu trefn gwrthod addysgu eu gwersi ar yr amserlen, oni bai bod pob aelod yn yr ysgol yn cael gwarant ar eu hamserlen y bydd o leiaf 10% o amser ar yr amserlen ar gyfer CPA.

Dylai pob athro, gan gynnwys penaethiaid sydd wedi eu hamserlennu i addysgu, gael amser wedi ei warantu o fewn sesiynau ysgol i gynllunio a pharatoi ar gyfer eu gwersi ac i asesu gwaith disgyblion.

Mae'n rhaid i'r amser fod o leiaf 10% o'u hamser dysgu ar yr amserlen, a dylai'r amser gael ei nodi'n glir ar yr amserlen. Mae'r defnydd o'r amser hwn dan gyfarwyddyd yr athro unigol, ac mae'n cael ei warantu. Ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw weithgaredd arall, gan gynnwys cyflenwi.

Mae'r ddarpariaeth hon i'w chael ym mharagraff 54.5 STPCD 2015.

Mae dyletswyddau proffesiynol athrawon yn cynnwys y gofyniad i gynllunio a pharatoi gwersi ac asesu gwaith disgyblion. Gan hynny, er mwyn i athrawon addysgu'n effeithiol, mae'n angenrheidiol eu bod yn cael dyraniad digonol o amser ar gyfer tasgau CPA.

Mae amser CPA gwarantiedig hefyd wedi ei gynllunio i leihau llwyth gwaith drwy alluogi athrawon i reoli eu llwyth gwaith yn fwy effeithiol a thrwy ddarparu amser yn ystod y diwrnod gwaith i athrawon gyflawni'r gweithgareddau hyn.

Lle mae methiant i warantu dyraniad o leiaf 10% o amser addysgu ar yr amserlen ar gyfer CPA ar gyfer pob athro, wedi ei farcio'n benodol ar yr amserlen, yna dylai Cynrychiolwyr yr NASUWT fynd at y pennaeth a gofyn iddynt fynd i'r afael â'r sefyllfa fel mater o frys. Dylid cysylltu â'r NASUWT ar unwaith yn ogystal.

Cyfarwyddyd 15: Yr unig weithgareddau cynllunio amser, paratoi ac asesu CPA y dylai aelodau ymgymryd â nhw yw'r rhai y maent yn penderfynu eu bod yn briodol i gefnogi eu gwersi ar yr amserlen.

Cyfarwyddyd 16: Dylai aelodau wrthod derbyn cyfarwyddyd y pennaeth i ymgymryd ag unrhyw weithgaredd arall, gan gynnwys cyflenwi, yn ystod CPA.

Mater i'r athrawon eu hunain yw penderfynu ar y gweithgareddau cynllunio, paratoi ac asesu y maent yn dymuno ymgymryd â nhw yn ystod eu hamser CPA. Mae hyn yn galluogi aelodau i reoli eu gwaith a'u llwyth gwaith yn fwy effeithiol drwy allu cynllunio'r defnydd o'r amser gwarantedig sydd ar gael i ymgymryd ag unrhyw weithgarwch CPA.

Dylai aelodau wrthod derbyn cyfarwyddyd y pennaeth neu'r rheolwr llinell i ymgymryd ag unrhyw weithgarwch arall yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae hyn yn cynnwys cyflenwi unrhyw fath o absenoldeb.

AMSER ARWAIN A RHEOLI

Cyfarwyddyd 17: Dylai aelodau sy'n cael eu talu ar y golofn arweinyddiaeth neu sy'n derbyn taliad Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (CAD) wrthod ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldeb arwain neu reoli oni bai eu bod yn cael eu dyraniad cytundebol o amser wedi ei neilltuo ar yr amserlen i hwyluso cyflawni'r cyfrifoldebau hyn.

Mae gan athrawon sy'n cael eu talu ar y golofn arweinyddiaeth, ac athrawon eraill sydd â chyfrifoldebau arwain a rheoli fel y rhai sy'n derbyn taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (CAD), yr hawl i gael dyraniad rhesymol o amser o fewn sesiynau'r ysgol i hwyluso'r gwaith o gyflawni eu cyfrifoldebau.

Dylai hyn fod yn amser penodedig ar yr amserlen ar wahân i unrhyw amser CPA.

Mae'r ddarpariaeth hon i'w chael ym mharagraff 54.6 STPCD 2015.

Dylai'r rhai sydd â chyfrifoldebau arwain ymgymryd â gwaith sy'n canolbwyntio ar addysgu a dysgu ac sy'n gwella'r elfennau hynny. Gan hynny, maent angen amser i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn er mwyn eu galluogi i wneud cyfraniad effeithiol at safonau addysgol.

Er nad oes diffiniad o beth yw 'dyraniad rhesymol o amser', rhaid i'r amser a ddyrennir fod yn ystyrlon, ac felly, ni fyddai blociau o ddeg neu 20 munud yn cwrdd â'r diffiniad hwnnw, er enghraifft.

Mae'n rhaid i'r dyraniad amser ystyried maint a natur y rôl.

Mae'n bwysig bod yn gydradd wrth ddarparu amser. Ni ddylid gwahaniaethu mewn unrhyw fodd rhwng athrawon y mae eu cyfrifoldebau o natur debyg i'w gilydd.

Os nad yw unrhyw aelod yn cael y dyraniad sy'n ofynnol o amser arwain a rheoli ar eu hamserlen, dylent roi gwybod i'r pennaeth na fyddant yn cyflawni'r cyfrifoldebau hynny nes bydd cyfnod rhesymol o amser yn cael ei nodi a'i ddyrannu. Dylai aelodau gysylltu â'r NASUWT ar unwaith yn ogystal.

Cyfarwyddyd 18: Dylai aelodau wrthod ymgymryd â gweithgareddau arwain a rheoli heb gael taliad CAD neu heb fod ar y golofn arweinyddiaeth.

Mewn gormod o ysgolion, mae aelodau yn cael cyfrifoldebau beichus o ran arwain a rheoli heb y taliad cysylltiedig ar y golofn arweinyddiaeth neu heb gael CAD. Mae'r rolau di-dâl yn cynnwys, er enghraifft, cydlynedd y cwricwlwm, cydlynedd pwnc neu bennaeth blwyddyn.

Mae'n gyffredin bod aelodau'n cael gwybod y bydd ymgymryd â'r rolau hynny'n 'wirfoddol' yn gwella eu dilyniant gyrfa, ei fod yn ddatblygiad proffesiynol da neu y bydd yn rhoi gormod o bwysau ar gyllideb yr ysgol os gwneir taliad. Nid yw'r un o'r rhain yn rhesymau dilys dros wrthod taliad priodol.

Os yw'r cyfrifoldebau hyn yn cael eu gwerthfawrogi gan yr ysgol, mae'r NASUWT yn credu y byddant yn denu'r hawl i amser arwain a rheoli ac i gael tâl yn unol â darpariaethau'r STPCD.

Weithiau dywedir wrth yr aelodau nad ydynt yn atebol am y maes cyfrifoldeb a roddwyd iddynt, ac o'r herwydd nad ydynt yn gymwys i gael taliad. Nid yw hyn yn wir. Gellir profi atebolrwydd yn hawdd drwy ofyn pe cafwyd adroddiad arolwg anffafriol ar y maes cyfrifoldeb, a fyddai'r pennaeth yn cymryd cyfrifoldeb llawn ynteu a fyddai'r pennaeth yn dal yr athro'n atebol am y canlyniad. Nid oes unrhyw amheuaeth mai'r ail sefyllfa fyddai'n gymwys.

I benderfynu ar gymhwyster ar gyfer talu, dylai aelodau gymhwyso'r paragraff a ganlyn i'w hamgylchiadau.

'Bydd disgwyl i athrawon gyfrannu at ddatblygu'r cwricwlwm drwy rannu eu harbenigedd proffesiynol â chydweithwyr a chynghori ar arfer effeithiol. Nid yw hyn yn golygu y gellir disgwyl iddynt gymryd y cyfrifoldeb ac atebolrwydd am faes pwnc na rheoli athrawon eraill. Rydym yn parhau i fod o'r farn y byddai angen i gyfrifoldebau o'r natur hon fod yn rhan o swydd a oedd yn y grŵp arweinyddiaeth neu a ddenodd daliad CAD ar y sail a nodir yn yr STPCD.'

Ar ôl cymharu unrhyw gyfrifoldeb di-dâl â'r datganiad hwnnw, dylai aelodau sy'n credu eu bod yn gymwys am daliad roi gwybod i'r NASUWT ar unwaith.

AMSER PENODOL AR GYFER GWAITH PENNAETH

Cyfarwyddyd 19: Dylai aelodau sy'n bennaethiaid gyda 50% neu ragor o ymrwymiad addysgu ar yr amserlen wrthod gwneud eu hymrwymiad addysgu oni bai bod ganddynt ddyraniad penodedig o amser ar gyfer gwaith pennaeth ar eu hamserlen.

Mae gan bennaethiaid sydd â llwythi addysgu sylweddol yr hawl i gael amser yn ystod sesiynau ysgol ar gyfer amser penodedig ar gyfer gwaith pennaeth.

Er nad oes diffiniad o 'sylweddol' yn yr STPCD, mae'r NASUWT yn credu y byddai hyn yn llwyth addysgu o 50% neu ragor ar yr amserlen, er enghraifft.

Dylid nodi amser penodol ar gyfer gwaith pennaeth yn glir ar yr amserlen, a dylai fod ar wahân i unrhyw amser CPA.

Gellir dod o hyd i'r ddarpariaeth hon ym mharagraff 49.2 Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2014.

Mae pennaethiaid sydd â llwythi addysgu sylweddol yn amlwg yn ymarferwyr arweiniol mewn ysgolion, ac oherwydd hynny, maent angen cymorth drwy ddarpariaeth amser CPA i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwersi o ansawdd uchel. Mae eu rôl arweinyddol ar weithgareddau addysgu a dysgu yr un mor bwysig, ac felly mae angen amser o safon pwrpasol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cyfrifoldebau gwaith pennaeth hyn.

Os nad yw aelod sy'n bennaeth yn cael y dyraniad gofynnol o amser penodedig ar gyfer gwaith pennaeth, yna dylai Cadeirydd y Corff Llywodraethu gael gwybod y dylai'r pennaeth gysylltu â'r NASUWT gyda'r bwriad o wrthod cyflawni ei gyfrifoldebau/ei chyfrifoldebau addysgu os nad yw'r mater yn cael sylw a bod swm priodol o amser yn cael ei neilltuo.

Nid oes diffiniad o faint o amser fyddai'n cael ei ystyried yn briodol, ond mae'r NASUWT yn credu y byddai aelodau sy'n bennaethiaid yn gallu nodi beth fyddai'n ddyraniad rhesymol yng nghyd-destun cydbwysu eu cyfrifoldebau.

CYFLENWI ABSENOLDEBAU

Cyfarwyddyd 20: Dylai aelodau wrthod cyflenwi yn ystod absenoldeb.

Dylai aelodau (ac eithrio'r rhai a gyflogir ar gontract yn gyfan gwbl neu'n bennaf i ymgymryd â gwaith cyflenwi) wrthod cyflenwi o unrhyw fath, gan gynnwys ceisiadau i gymryd disgyblion i'w dosbarth neu grŵp o ddosbarthiadau eraill lle mae'r athro'n absennol (hollti dosbarthiadau). Nid yw cyflenwi yn ddefnydd da o amser yr athrawon yn yr ysgol.

Mae absenoldeb sy'n sbarduno'r angen i gyflenwi yn digwydd pan fydd yr athro sydd fel arfer yn gyfrifol am addysgu dosbarth penodol yn absennol o'r ystafell ddosbarth yn ystod yr amser y trefnwyd eu bod yn addysgu. Gallai'r absenoldeb fod am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys rhesymau mewnol ac allanol, yn ogystal â salwch. Gallai fod yn y tymor byr neu'r tymor hir. Ni ddylai aelodau gyflenwi yn ystod unrhyw absenoldeb.

AMSER A ENILLWYD

Cyfarwyddyd 21: Pan fydd athrawon yn cael eu rhyddhau o ymrwymadau addysgu ar yr amserlen gan fod disgyblion ar gyfnod astudio neu absenoldeb yn sgil arholiadau, dylai aelodau wrthod ymgymryd ag unrhyw weithgarwch yn ystod y cyfnod hwnnw ac eithrio'r rhai a nodir yn Adran 4 Paragraffau 76-77 Dogfen Cyflogau ac Amodau Athrawon Ysgol (STPCD).

Yn ystod y flwyddyn, gellir rhyddhau athrawon o rai o'u hymrwymadau addysgu ar yr amserlen pan fydd disgyblion ar gyfnod astudio neu gyfnod arholiadau. Gelwir hyn yn 'amser a enillwyd'. Yn ystod amser a enillwyd, dim ond gweithgareddau o'r rhestr isod, a arferai fod mewn rhestr yn Adran 4 Dogfen Cyflogau ac Amodau Athrawon Ysgol, y mae gofyn i athrawon ymgymryd â nhw:

- datblygu/adolygu deunyddiau adrannol/pwnc cwricwlwm, cynlluniau gwaith, cynlluniau gwersi a pholisïau er mwyn paratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd. Gall hyn gynnwys nodi deunyddiau aelodau priodol i'w defnyddio gan staff cyflenwi a/neu oruchwylwyr cyflenwi;
- cynorthwyo cydweithwyr â gweithgareddau addysgu tîm priodol a gynlluniwyd;
- cymryd grwpiau o ddisgyblion i ddarparu cymorth dysgu ychwanegol;
- cefnogi detholiad o ddisgyblion â gwaith cwrs;
- ymgymryd â gweithgareddau a gynlluniwyd gyda disgyblion sy'n trosglwyddo rhwng grwpiau blwyddyn neu o ysgolion cynradd;
- os oes gan yr ysgol bolisi ar gyfer yr holl staff i'w rhyddhau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus yn ystod sesiynau'r ysgol, gellid defnyddio amser a enillwyd.

Bwriad diffinio'r defnydd o amser a enillwyd yw osgoi cyfeirio athrawon at weithgareddau yn ystod y cyfnod hwn lle nad oes angen sgiliau a galluoedd athrawon cymwys ac er mwyn eu galluogi i ganolbwyntio ar dasgau sy'n gwella addysgu a dysgu.

Ni ddylai aelodau dderbyn cyfarwyddyd i ymgymryd ag unrhyw weithgaredd yn ystod amser a enillwyd ac eithrio'r rhai a gynhwysir yn y rhestr uchod.

GORUCHWYLIAETH AMSER CINIO

Cyfarwyddyd 22: Dylai aelodau wrthod ymgymryd â goruchwylio disgyblion yn ystod yr egwyl ginio.

Mae gan athrawon yr hawl i gael egwyl ddyddiol o hyd rhesymol naill ai rhwng sesiynau ysgol, neu rhwng 12 hanner dydd a 2.00pm.

Mae'r ddarpariaeth hon i'w chael ym mharagraff 54.3 STPCD 2015.

Mae addysgu yn weithgaredd heriol a dwys iawn, a chyflwynwyd y ddarpariaeth hon i sicrhau bod cyfle i gymryd seibiant yn ystod y diwrnod gwaith.

Egwyl o hyd rhesymol at ddibenion y cyfarwyddyd hwn yw awr ginio gyfredol yr ysgol.

Ni ddylai aelodau ymgymryd ag unrhyw waith goruchwylio disgyblion yn ystod yr awr ginio, oni bai eu bod wedi ymrwymo i ail gontract y tu allan i ddarpariaethau'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol i wneud hynny. Mae'r NASUWT yn argymhell nad yw aelodau'n ymrwymo i gontractau o'r fath.

Er nad yw'r NASUWT yn argymhell bod aelodau'n ymgymryd â gweithgareddau gwirfoddol, allgyrsiol yn ystod yr awr ginio, nid yw'r cyfarwyddyd hwn yn atal y rhain rhag parhau. (Gweler yr adran ar weithgareddau gwirfoddol ar dudalen 17 y canllawiau hyn.)

AROLYGU ARHOLIADAU

Cyfarwyddyd 23: Dylai aelodau wrthod goruchwyllo unrhyw arholiad cyhoeddus, gan gynnwys arholiadau TGAU.

Nid yw'n ofynnol i'r un athro cynradd nac uwchradd oruchwyllo unrhyw arholiad cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys TGAU, Safon Uwch neu unrhyw archwiliad neu brawf arall a osodir yn genedlaethol.

Mae'r ddarpariaeth hon i'w chael ym mharagraff 54.8 STPCD 2015.

Nid yw goruchwyllo arholiadau yn ddefnydd cynhyrchiol o amser athrawon.

Ac eithrio ar gyfer y gweithgareddau a bennir yn y cyfarwyddyd uchod, nid yw goruchwyllo arholiadau yn gofyn am sgiliau a galluoedd athro cymwysedig.

Mae goruchwyllo arholiadau, yn enwedig yn achos grwpiau a dosbarthiadau o ddisgyblion maent yn eu haddysgu, yn golygu bod athrawon yn agored i gyhuddiadau o gamymddwyn mewn arholiadau ac yn tanseilio hyder y cyhoedd yng nghanlyniadau'r arholiadau.

Yr eithriadau yw:

- asesiadau dan reolaeth mewn ysgolion uwchradd;
- arholiadau ymarferol neu lafar sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r athro arbenigol fod yn bresennol.

Cyfarwyddyd 24: Dylai aelodau wrthod goruchwyllo unrhyw 'ffug' arholiad pan fydd yr ysgol yn ad-drefnu'r amserlen i ail-greu'r broses archwilio allanol.

Cyfeirir weithiau at ffug arholiadau fel arholiadau 'prawf'.

Ni fyddai'r cyfarwyddyd hwn yn berthnasol pe bai'r ffug arholiadau / arholiadau prawf yn cael eu cynnal gan athrawon gyda'r dosbarth neu'r grŵp maent yn eu haddysgu fel arfer yn ystod eu hamser ar yr amserlen arferol a than y trefniadau ar gyfer cynnal y wers.

TASGAU GWEINYDDOL A CHLERIGOL

Cyfarwyddyd 25: Dylai aelodau wrthod ymgymryd â thasgau gweinyddol a chlerigol fel y rhoddir enghraifft yn Atodiad 4 yr STPCD.

Ni chaniateir gofyn i athrawon gyflawni tasgau gweinyddol a chlerigol fel mater o drefn.

Nid oes rhaid i dasg gael ei gwneud yn ddyddiol iddi fod yn dasg reolaidd. Mae llawer o dasgau yn cael eu gwneud unwaith y flwyddyn yn unig, fel paratoi adroddiadau. Byddai hyn yn dal i gael ei chyfrif fel tasg reolaidd, ac felly ni ddylai athrawon ei gwneud.

Mae'r ddarpariaeth hon i'w chael ym mharagraff 54.8 STPCD 2015.

Mae pwrpas deuol i'r ddarpariaeth hon. Yn gyntaf, y bwriad yw lleihau llwyth gwaith athrawon drwy gael gwared ar dasgau nad ydynt yn gofyn am gymwysterau, sgiliau a galluoedd athro. Yn ail, y bwriad yw rhyddhau athrawon i ganolbwyntio ar addysgu a dysgu.

Mae'r tasgau gweinyddol a chlerigol a gafodd eu rhestru'n flaenorol yn Atodiad 4 yr STPCD yn cael eu rhestru isod. Maent yn enghreifftiol ac nid ydynt yn gyflawn. Dylai aelodau nodi unrhyw dasg ychwanegol na ddylid ei chynnal drwy ddefnyddio'r prawf a ydynt angen cymwysterau, sgiliau a galluoedd athrawon cymwysedig.

ATODIAD 4 – Tasgau gweinyddol a chlerigol

1. Casglu arian gan ddisgyblion a rhieni.
2. Ymchwilio i absenoldeb disgybl.
3. Llungopio swmp.
4. Teipio neu lunio fersiynau ar brosesydd geiriau o ddeunydd llawysgrif a llunio adolygiadau o fersiynau o'r fath.
5. Prosesu geiriau, copïo a dosbarthu gohebiaeth swmp, gan gynnwys llythyrau safonol, i rieni a disgyblion.
6. Llunio rhestrau dosbarth yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan athrawon.
7. Cadw a ffeilio cofnodion, gan gynnwys cofnodion yn seiliedig ar ddata a gyflenwir gan athrawon.
8. Paratoi, gosod a thynnu i lawr arddangosiadau dosbarth yn unol â phenderfyniadau a wnaed gan athrawon.
9. Paratoi dadansoddiadau o ffigurau presenoldeb.
10. Paratoi dadansoddiadau o ganlyniadau arholiadau.
11. Coladu adroddiadau disgyblion.
12. Gweinyddu profiad gwaith (ond nid dewis lleoliadau a chefnogi disgyblion drwy gyfrwng cyngor neu ymweliadau).
13. Gweinyddu arholiadau cyhoeddus a mewnol.
14. Gweinyddu cyflenwi ar gyfer athrawon absennol.
15. Archebu, gosod a chynnal a chadw cyfarpar a meddalwedd TGCh.
16. Archebu nwyddau a chyfarpar.
17. Catalogio, paratoi, darparu a chynnal a chadw deunyddiau a chyfarpar a chadw stoc ohonynt.
18. Cymryd nodiadau air am air neu lunio cofnodion ffurfiol cyfarfodydd.
19. Cydlynu a chyflwyno cynigion (ar gyfer cyllid, statws yr ysgol ac ati) gan ddefnyddio cyfraniadau gan athrawon ac eraill.
20. Trosglwyddo data ar bapur ynghylch disgyblion na chyfeiriwyd atynt uchod i systemau rheoli cyfrifiadurol yr ysgol.
21. Rheoli'r data yn systemau rheoli'r ysgol.

CYFLOG A DATBLYGIAD CYFLOG

Cyfarwyddyd 26: Rhoddir cyfarwyddyd i aelodau beidio â chytuno i, na chyfrannu at, unrhyw drefniant i roi unrhyw bolisi cyflogau athrawon ar waith nad yw'n cydymffurfio â holl elfennau rhestr wirio polisiau cyflogau'r NASUWT.

Os bydd cyflogwr yn peidio â chytuno ar bolisi sy'n cydymffurfio â holl elfennau rhestr wirio polisiau cyflogau'r NASUWT, rhaid cyfeirio hyn at sylw'r Undeb Cenedlaethol.

Pwrpas y cyfarwyddyd hwn yw amddiffyn athrawon rhag effaith y newidiadau hyn, sydd â'r nod o wasgu ar gyflog a datblygiad cyflog athrawon.

Rhoddwyd gwybodaeth a chanllawiau manwl i aelodau a chynrychiolwyr yr NASUWT i ategu'r cyfarwyddyd hwn.

Mae'r wybodaeth a'r canllawiau isod, sydd wedi cael eu dosbarthu i ysgolion, ar gael ar wefan yr NASUWT yn www.nasuwt.org.uk/PayPolicy.

- rhestr wirio polisiau cyflogau'r NASUWT;
- llythyr a luniwyd gan yr NASUWT at benaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr;
- polisi cyflogau enghreifftiol a chanllawiau esboniadol yr NASUWT.

Bydd swyddogion yr NASUWT lleol yn mynd ati i gynnal trafodaethau ag awdurdodau lleol er mwyn cytuno ar bolisi cyflogau, a fydd yn cynnwys y darpariaethau yn rhestr wirio polisiau cyflogau'r NASUWT, ar gyfer holl ysgolion yr awdurdod lleol. Felly ni ddylai aelodau gymryd rhan mewn trafodaethau mewnol ynglŷn â hyn. Os bydd penaethiaid yn awyddus i lunio polisi yn fewnol, dylai

aelodau roi copi o bolisi enghreifftiol yr NASUWT i'r pennaeth a chysylltu â'r NASUWT ar unwaith am gyngor a chymorth.

Mae rhestr wirio polisiâu cyflogau a pholisi enghreifftiol yr NASUWT yn cyd-fynd yn gyfan gwbl â'r darpariaethau cyfreithiol a rheoleiddiol y mae disgwyl i ysgolion eu bodloni.

LLWYTH GWAITH GORMODOL A PHOLISIÂU MARCIO AC ASESU

Cyfarwyddyd 27: Caiff aelodau gyfarwyddyd i wrthod cydymffurfio ag unrhyw bolisi marcio ac asesu sy'n arwain at ormod o lwyth gwaith a/neu nad yw'r NASUWT wedi cytuno arnynt.

Hyd nes y cyflwynir polisi y bydd yr NASUWT wedi cytuno arno, bydd aelodau'n marcio ac yn asesu disgyblion mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddorion a nodir yng nghanllawiau'r Undeb.

Mae'r NASUWT wedi cynhyrchu dogfennau cyngor ac arweiniad cychwynnol ar bolisiâu ac arferion marcio derbyniol mewn ysgolion. Dylai aelodau'r NASUWT geisio sicrhau eu bod yn taro ar gytundebau ar farcio sy'n gyson â'r canllawiau hyn. Lle na ellir taro ar gytundeb, dylid cysylltu â'r NASUWT ar unwaith i gael rhagor o gefnogaeth, cyngor ac arweiniad.

Arweiniad ar weithredu heb fynd ar streic – cyfarwyddyd marcio

Cyflwyniad a chefnidir y cyfarwyddyd

1. Bwriedir yr arweiniad hwn i gefnogi aelodau wrth weithredu cyfarwyddyd yr NASUWT ar weithredu heb fynd ar streic ynghylch polisiâu marcio ac asesu mewn ysgolion. Mae'r cyfarwyddyd yn nodi'n glir fod yn rhaid i aelodau wrthod cydymffurfio â pholisiâu marcio ac asesu sy'n arwain at ormod o lwyth gwaith a/neu nad yw'r NASUWT wedi cytuno arnynt.
2. Nid ar chwarae bach y mae'r NASUWT yn cyhoeddi cyfarwyddyd yn canolbwyntio ar farcio. Mae'r Undeb wedi ymrwmo i sicrhau fod ei gamau gweithredu heb fynd ar streic yn gyson â gwaith mewn ysgolion i hyrwyddo safonau addysgol uchel ac yn cydnabod yn llwyr fod polisiâu ac arferion marcio'n chwarae rhan allweddol yn y cyswllt hwn.
3. Nid yw'r Undeb wedi cynhyrchu polisi marcio enghreifftiol gan y byddai'n anodd i bolisi o'r fath roi sylw ystyrlon i amgylchiadau penodol a blaenoriaethau addysgol pob ysgol. Fodd bynnag, mae'r arweiniad hwn yn nodi'r egwyddorion allweddol y mae'r NASUWT yn disgwyl y dylid eu hadlewyrchu yn holl bolisiâu ac arferion ysgolion.
4. Wrth ddatblygu'r arweiniad hwn, mae'r NASUWT wedi rhoi ystyriaeth lawn i arfer da presennol mewn ysgolion, disgwyliadau trefn atebolrwydd yr ysgol, a thystiolaeth ymchwil ar y modd y gall marcio ac adborth gyfrannu'n effeithiol at gynnydd a llwyddiant disgyblion.
5. Yn benodol mae cyfarwyddyd gweithredu heb fynd ar streic yr NASUWT ar bolisiâu marcio ac asesu'n berthnasol i bolisiâu nad ydynt wedi eu cytuno gyda'r NASUWT ac sy'n:
 - nodi amllder, math neu faint y marcio a'r adborth;
 - gofyn i athrawon ddarparu cofnod ysgrifenedig o adborth llafar a ddarparwyd i ddisgyblion;
 - gofyn i athrawon ddarparu adborth ysgrifenedig manwl bob amser pan fyddant yn adolygu gwaith disgyblion neu'n cydnabod eu hymdrechion;
 - gofyn i athrawon wneud gwaith marcio manwl (e.e. 'deialogaidd', 'trylwyr', 'triphlyg', neu 'ansoddol') ar gyfer pob darn o waith ysgrifenedig a gwblhawyd gan ddisgyblion;
 - defnyddio gwybodaeth a gasglwyd drwy ymarferion archwilio llyfrau, y cyfeirir atynt yn aml fel 'edrych ar lyfrau', i ffurfio barn am effeithlonrwydd ymarfer athrawon; ac
 - nad ydynt yn gynaliadwy o ran llwyth gwaith athrawon gan olygu bod y rhan fwyaf o waith marcio athrawon yn cael ei wneud y tu allan i amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu.

Ystyrir y materion hyn yn fanylach isod.

Pwysigrwydd dulliau gweithredu effeithlon o ran marcio ac adborth

6. Mae'r NASUWT yn glir fod marcio ac adborth yn ddimensiwn pwysig o arferion addysgu effeithlon. Mae marcio ac adborth:
 - yn sicrhau fod athrawon a rhieni yn deall lle mae'r disgyblion arni o ran eu haddysg a beth mae angen iddynt ei wneud i wella ymhellach;
 - yn goleuo ymyriadau i sicrhau fod cynnydd disgyblion yn mynd rhagddo'n iawn; ac
 - yn cefnogi gwerthusiad disgyblion o'u dysgu eu hunain.
7. Mae'r NASUWT felly'n disgwyl ei bod yn rhesymol i ysgolion geisio sefydlu fframweithiau a systemau ar gyfer marcio ac adborth. Fodd bynnag, mae'n hanfodol sicrhau nad yw trefniadau ar gyfer marcio ac adborth yn creu pwysau annerbyniol a diangen ar lwyth gwaith athrawon. Mae'r NASUWT wedi rhoi ei gyfarwyddyd ynghylch marcio ar waith i amddiffyn athrawon rhag ymdrechion gan ysgolion i orfodi trefniadau o'r fath.
8. Mae'n bwysig nodi ei bod yn gwbl bosibl i ysgolion sefydlu disgwyliadau o ran marcio sydd nid yn unig yn cwrdd â'r nodau addysgol a nodir uchod ac y cydnabyddir gan arolygwyr eu bod yn cyfrannu at ddysgu ac addysgu effeithiol, ond hefyd yn cyfyngu ar bwysau ar lwyth gwaith athrawon. Lle nad yw trefniadau o'r fath yn eu lle, mae cyfarwyddyd gweithredu'r NASUWT ar farcio'n darparu dull ar gyfer cyflwyno arferion mwy priodol o ran marcio ac adborth.
9. Er y bydd ysgolion eisiau gweithredu polisiâu a systemau ysgol gyfan ar gyfer marcio ac adborth, rhaid cydnabod y bydd angen i arferion amrywio yn ôl oedran a gallu disgyblion yn ogystal ag yn ôl pwnc neu faes dysgu. O'r herwydd, wrth geisio cytuno ar dulliau gweithredu derbyniol o ran marcio, bydd angen i aelodau ddefnyddio'u barn broffesiynol i argymhell fframweithiau sy'n rhoi ystyriaeth i'r cyd-destunau penodol lle gwneir y marcio. Fodd bynnag, er gwaethaf y cyd-destunau amrywiol hyn, rhaid i ymarfer adlewyrchu'r ystyriaethau a nodir isod os yw am gael ei ystyried yn dderbyniol gan yr NASUWT.

Disgwyliadau Estyn

10. Mae llawlyfr ac arweiniad Estyn yn egluro mai ar ansawdd marcio ac adborth y mae ei bwyslais, yn hytrach na swm. Er enghraifft, mae ei arweiniad ar arolygu cynradd yn datgan y bydd arolygwyr yn canolbwyntio ar:

*'...pa mor dda y mae adborth ar lafar a marcio'n galluogi disgyblion i wybod sut y maent yn gwneud a beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella.'*¹
11. Nodir darpariaethau tebyg yn arweiniad Estyn ar gyfer arolygu ysgolion uwchradd. Mae adroddiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Estyn hefyd yn pwysleisio mai ei brif ffocws yw ansawdd marcio a'i effaith ar gynnydd disgyblion yn hytrach na faint ohono a wneir.²
12. Dylai aelodau'r NASUWT felly wrthsefyll unrhyw ymdrech i gyfiawnhau gosod trefniadau marcio beichus neu ddwys o ran llwyth gwaith ar y sail fod Estyn yn disgwyl i systemau o'r fath fod yn eu lle ac y bydd ysgolion yn dioddef canlyniadau niweidiol o ran arolygu os na wneir hynny.

Mathau ac amllder marcio ac adborth

13. Mae'n hanfodol fod polisiâu marcio ac asesu ysgol gyfan yn cydnabod y gellir rhoi adborth i ddisgyblion ar lafar neu'n ysgrifenedig ac y gall y ddwy ffurf fod yr un mor ddilys. O'r herwydd ni ddylai adborth neu farcio ysgrifenedig o angenrheidrwydd dderbyn mwy o statws neu bwyslais nag adborth ar lafar. Ar gyfer rhai mathau o ddysgu ac ar gyfer y disgyblion ieuengaf, mae'r rhan fwyaf o'r adborth a roddir i ddisgyblion yn debygol o fod ar lafar yn hytrach nag yn ysgrifenedig. Gan ddibynnu ar gyd-destun a barn broffesiynol athrawon, gellir rhoi adborth ar lafar i ddisgyblion yn unigol hefyd, yn ogystal ag ar y cyd.

¹ Estyn (2014). *Arweiniad ar gyfer arolygu ysgolion cynradd*. Ar gael yn: www.estyn.gov.uk/download/publications/8435.7/guidance-for-the-inspection-of-primary-schools-from-september-2010/, accessed on 17.04.15.

² eee Estyn (2014). *Saesneg yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 - Mehefin 2014*. Ar gael yn: www.estyn.gov.uk/english/docViewer/314550.6/english-in-key-stages-2-and-3-june2014/?navmap=30,163, accessed on 18.04.15.

14. Er y cydnabyddir ei bod yn bwysig rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i'r adborth hwn, does dim angen i bolisiâu fynnu bod athrawon yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig o achosion o roi adborth llafar i ddisgyblion. Fodd bynnag, bydd athrawon eisïau cadw cofnod o adborth llafar a roddwyd i ddisgyblion os bydd eu barn broffesiynol yn nodi y byddai hyn yn briodol.
15. Ni ddylai systemau sydd yn eu lle i gydnabod gwaith ysgrifenedig ac ymdrechion disgyblion fynnu bod y gydnabyddiaeth hon yn cynnwys sylwadau ysgrifenedig manwl. Yn lle hynny gellir cydnabod gwaith disgyblion yn briodol ac effeithiol drwy gyfrwng ticio, systemau symbolau a gytunir, sticeri neu stampiau, nad yw eu defnyddio'n achosi pwysau beichus.
16. Mae'r NASUWT yn cydnabod fod darparu adborth ysgrifenedig manylach i ddisgyblion yn gallu chwarae rôl bwysig o ran cefnogi eu haddysg. Yn aml, cyfeirir at farcio o'r fath fel:
 - marcio deialogaidd;
 - marcio trylwyr;
 - marcio triphlyg; neu
 - farcio ansoddol.
17. Gall y marcio hwn fod ar sawl ffurf ond mae'n tueddu i gael ei nodweddu gan ddarparu adborth ysgrifenedig manwl gan athrawon sy'n adlewyrchu cynnydd disgyblion tuag at amcanion dysgu perthnasol. Yna disgwylir i ddisgyblion ddarparu ymateb ysgrifenedig yn cadarnhau eu bod wedi deall yr adborth hwn ac yn disgrifio sut y maent yn bwriadu ymateb.
18. Fel arfer, disgwylir i'r adborth hwn gynnwys adborth cadarnhaol ar gynnydd disgyblion a thynnu sylw at feysydd ar gyfer datblygu pellach. Mae arferion o'r math hwn yn aml yn cael eu disgrifio fel 'dwy seren a dymuniad' neu 'www (beth aeth yn dda)/ ebi (gwell byth os)', er bod amrywiaeth eang o dermau'n cael eu defnyddio i ddisgrifio'r agwedd hon tuag at farcio ar draws system yr ysgol. Gall athrawon ddarparu mwy o sylwadau'n seiliedig ar ymatebion disgyblion.
19. Mae'r NASUWT wedi dod yn gynyddol bryderus am achosion lle y mae disgwyl i athrawon ymgymryd â'r math hwn o farcio'n ormodol. Tynnwyd sylw'r NASUWT at rai ysgolion lle y disgwylir y math hwn o farcio ar gyfer pobl darn o waith ysgrifenedig a gwblhawyd gan ddisgyblion.
20. Dylai polisiâu ysgolion felly gymryd sylw o'r ffaith y dylai marcio o'r natur hon o dro i dro yn hytrach nac yn rheolaidd ddarparu cyfleoedd digonol i athrawon roi adborth ysgrifenedig effeithiol i ddisgyblion. Dylai polisiâu ystyried y ffaith, mewn rhai meysydd pwnc mewn ysgolion uwchradd lle y mae athrawon yn gyfrifol am nifer gymharol fawr o ddisgyblion, y bydd angen addasu disgwyliadau o ran marcio trylwyr o ganlyniad.
21. Wrth sefydlu disgwyliadau ysgol gyfan sy'n rhesymol o ran y defnydd o farcio o'r math hwn, dylai ysgolion sicrhau fod digon o hyblygrwydd i ganiatáu i athrawon fabwysiadu dulliau sydd fwyaf addas ar gyfer gofynion gwahanol bynciau.
22. Dylid cydnabod hefyd na fydd marcio o'r math hwn yn briodol ar gyfer rhai disgyblion neu mewn rhai meysydd pwnc. Dylid adlewyrchu'r ystyriaethau hyn yn glir ym mh Polisiâu ysgolion.

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd

23. Mae'r NASUWT yn parhau i bryderu ynghylch y beichiau ar lwyth gwaith a gynhyrchir gan y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a bydd yn parhau i fynd ar ôl y rhain gyda Llywodraeth Cymru.
24. Nid yw'r disgwyliadau yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd y dylai adborth ac asesu ar draws y cwricwlwm roi sylw i gynnydd a llwyddiant disgyblion ar draws y cwricwlwm yn cael eu peryglu drwy geisio gosod terfynau rhesymol, fel y disgrifir yn yr arweiniad hwn, ar y gofynion marcio a wynebir gan athrawon.

Monitro marcio ac adborth ysgrifenedig

25. Mae ysgolion yn aml yn sefydlu trefniadau i fonitro ansawdd eu marcio a'u cydymffurfiaeth â pholisiâu perthnasol; er enghraifft, canolbwyntio ar y cwestiwn a yw'r athro wedi defnyddio pinnau ysgrifennu o'r lliw cywir i farcio'r gwaith yn hytrach na sut y mae'r disgybl yn gwneud cynnydd - mewn gwirionedd, monitro'r athro yn hytrach na'r disgybl.

26. Bydd rhai ysgolion o dro i dro yn casglu samplau o waith ysgrifenedig disgyblion i fonitro cydymffurfiaeth â pholisïau marcio. Caiff arferion o'r fath yn aml eu disgrifio fel 'craffu ar lyfrau' neu 'archwilio llyfrau' neu 'edrych ar lyfrau'. Mae cyfarwyddyd yr NASUWT o ran gweithredu heb fynd ar streic yn cadarnhau na fydd unrhyw wybodaeth a gesglir drwy ymarferion craffu ar lyfrau nad ydynt wedi eu cytuno yn ystod y cyfarfod cynllunio rheoli perfformiad yn gallu cael ei defnyddio i ffurfio barn am effeithlonrwydd proffesiynol athrawon.
27. Mae cyngor ac arweiniad pellach am reoli perfformiad, gan gynnwys sut y gellir defnyddio cyfarwyddyd yr Undeb ar weithredu heb fynd ar streic i sicrhau trefniadau rheoli perfformiad derbyniol ar gael yn www.nasuwat.org.uk/performance-management-wales.

Amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA)

28. Mae gan athrawon hawl cytundebol i amser CPA wedi ei warantu. Mae cyfarwyddyd yr NASUWT ar weithredu heb fynd ar streic yn ceisio sicrhau fod athrawon yn cael yr amser hwn. Mae contractau athrawon a chyfarwyddiadau'r NASUWT hefyd yn nodi ar ba delerau y mae'n rhaid darparu'r amser CPA.
29. Mae CPA yn amser a hunangyfarwyddir pryd y mae gan athrawon gyfle i wneud tasgau gan gynnwys asesu gwaith disgyblion y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae marcio felly'n ddefnydd cwbl briodol o amser CPA.
30. Y mae i ba raddau y mae amser CPA yn ddigonol i athrawon gwblhau'r rhan fwyaf o'u marcio yn darparu arweiniad defnyddiol o ran pa mor rhesymol yw pwysau marcio. Os, er eu bod wedi defnyddio amser CPA ar gyfer marcio, bod gofyn i athrawon dreulio llawer iawn o amser ychwanegol yn marcio gwaith disgyblion, mae'n debygol bod y polisïau marcio ac asesu yn rhoi baich annerbyniol ar athrawon, ac mae angen mynd i'r afael â hyn drwy gytuno ar ddiwygiadau i bolisïau ysgolion.

GWEITHGARWCH GWIRFODDOL Y TU ALLAN I SESIYNAU'R YSGOL

Mae gweithredu nad yw'n cynnwys streicio wedi ei gynllunio'n benodol i fynd i'r afael â materion llwyth gwaith gormodol athrawon ac amddiffyn cyflog ac amodau gwasanaeth mewn modd sy'n cyflawni'r nodau hyn drwy ddefnyddio strategaethau sy'n addas i ddisgyblion, rhieni a'r cyhoedd.

Gan hynny, lle mae aelodau wedi rhoi eu hamser yn wirfoddol i ymgymryd â gweithgareddau allgyrsiol, ac nad ydynt wedi cael eu rhoi dan bwysau i wneud hynny, ni fwriedir i'r camau gweithredu nad ydynt yn streic atal y rhain rhag parhau.

Mae Gweithgareddau allgyrsiol yn cynnwys timau ysgol, cynrychiadau cerddoriaeth/drama a chlybiau.

Lle mae aelodau wedi gwneud penderfyniad proffesiynol ac wedi gwirfoddoli i roi cymorth ychwanegol i rai disgyblion y tu allan i sesiynau ysgol, gall y rhain hefyd barhau.

Fodd bynnag, lle mae unrhyw un o'r gweithgareddau uchod wedi eu gosod ar aelod, yna bydd y cyfarwyddiadau camau nad ydynt yn streicio yn galluogi'r aelod i dynnu'n ôl o'r gweithgareddau hyn. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai aelodau roi gwybod i'r pennaeth yn ysgrifenedig mewn digon o amser cyn bod y gweithgaredd nesaf wedi ei drefnu, fel bod modd rhoi gwybod i ddisgyblion a rhieni yn ôl yr angen na fydd y gweithgaredd yn cael ei gynnal.

ATODIAD 1 – ASESU EFFAITH AR LWYTH GWAITH

- 3.1 Mae cyfarwyddyd cenedlaethol gweithredu heb fynd ar streic yr NASUWT yn cynnwys gofyniad i gyflogwyr asesu effaith polisiau sy'n bod yn barod a pholisiau newydd ar lwyth gwaith.
- 3.2 Cyfrifoldeb y cyflogwr yw asesu polisiau o ran effaith ar lwyth gwaith.
- 3.3 Mae'r rhestr wirio isod yn amlygu'r meysydd allweddol a ddylai gael sylw yn asesiad effaith ar lwyth gwaith y cyflogwr.
- 3.4 Dylid cymhwyso'r asesiad effaith hwn i bob polisi sy'n bod yn barod a pholisiau newydd.
- 3.5 Gellir llwytho i lawr gopi o'r asesiad effaith llwyth gwaith oddi ar wefan yr NASUWT: www.nasuwt.org.uk/IndustrialAction.

RHESTR WIRIO ASESU EFFAITH LLWYTH GWAITH

Mae gan yr ysgol system y cytunwyd arni i fonitro baich gwaith ac oriau gwaith athrawon a'r pennaeth.

Mae'r polisi'n cydymffurfio ac yn gyson â hawliau cytundebol athrawon (gweler Cyfarwyddiadau Gweithredu'r NASUWT).

Cyflwynwyd y polisi ac unrhyw weithdrefn berthynol yn dilyn ymgynghoriad llawn â'r NASUWT.

Mae'r polisi ac unrhyw weithdrefn berthynol yn cynnwys datganiad penodol ynghylch effaith llwyth gwaith.

Mae'r polisi wedi cael ei beilota/ei dreialu er mwyn gallu asesu effaith llwyth gwaith.

Effaith y polisi a'r gweithdrefnau perthynol yw nad ydynt yn arwain at oriau gwaith ychwanegol.

Nid yw'r polisi'n dyblygu unrhyw bolisi arall.

Mae pob polisi wedi cael ei adolygu er mwyn asesu a oes rhai wedi dyddio neu'n ddiangen.

Mae'r ysgol wedi nodi'r adnoddau sydd eu hangen i ategu'r polisi, gan gynnwys amser staff, unrhyw staffio ychwanegol a chyfarpar priodol.

Ni fydd gweithredu'r polisi hwn yn arwain at gyfarfodydd/gweithgarwch ychwanegol na nodwyd ar galendr yr ysgol, a gyhoeddwyd ac a adolygwyd drwy ymgynghori â'r NASUWT.

Mae'r holl staff (gan gynnwys y pennaeth) wedi cael hyfforddiant er mwyn sicrhau bod y polisi ac unrhyw weithdrefn gysylltiedig yn cael eu gwneud heb gynyddu baich y llwyth gwaith.

Mae'r polisi a'r gweithdrefnau perthynol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau nad yw beichiau llwyth gwaith ychwanegol wedi cael eu hychwanegu dros amser.

- 3.6 **Os nad yw polisi presennol neu newydd yn bodloni pob un o'r profion uchod, yna dylid gofyn i'r pennaeth fynd i'r afael â'r diffygion ar unwaith. Os nad yw polisi presennol neu newydd yn bodloni'r profion, yna mae'n rhaid i aelodau ddilyn cyfarwyddiadau gweithredu cenedlaethol yr NASUWT mewn perthynas â'r polisi penodol.**

ATODIAD 2 – CYFARFODYDD A CHALENDR AMSER A GYFARWYDDIR YR YSGOL

Amser gweithio ac amser a gyfarwyddir

- 1.1 Mae'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (STPCD) yn ei gwneud yn ofynnol i athro a gyflogir yn llawn amser fod ar gael i weithio ar 195 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn ysgol, ac ar 190 o'r diwrnodau hynny gall fod yn ofynnol i'r athro addysgu disgyblion a chyflawni dyletswyddau eraill fel y disgrifir yn llawn yn yr STPCD, ac ar bum diwrnod pan mai'r unig ofyn fyddai i'r athro gyflawni dyletswyddau eraill. Efallai y bydd angen i athro o'r fath addysgu a chyflawni dyletswyddau eraill am 1,265 awr (amser a gyfarwyddir) bob blwyddyn, wedi ei ddyrannu'n rhesymol drwy gydol y diwrnodau hynny yn y flwyddyn ysgol y mae gofyn iddo ef / iddi hi weithio.¹
- 1.2 Ar ben hynny, rhaid i athrawon weithio *'oriau ychwanegol rhesymol yn ôl yr angen er mwyn iddynt gyflawni eu dyletswyddau proffesiynol yn effeithiol'*. Dylid canolbwyntio'r gwaith hwn ar gynllunio, paratoi ac asesu, cofnodi ac adrodd. Fodd bynnag, mae'r gofyniad i weithio oriau ychwanegol yn amodol ar yr hawl i fwynhau cydbwysedd rhesymol o foddhaol rhwng gwaith a bywyd, ac fe'i gwneir yn y cyd-destun hwnnw. Dan ddarpariaethau'r STPCD, mae gofyn i ysgolion sicrhau eu bod nhw wedi *'rhoi ystyriaeth briodol i'r hyn y gellir ei ddisgwyl gan athrawon yr ysgol o ran gallu cael cydbwysedd boddhaol rhwng yr amser sy'n ofynnol i gyflawni eu dyletswyddau proffesiynol... a'r amser sy'n ofynnol i ymgymryd â'u diddordebau personol y tu allan i'r gwaith'*.

Calendr amser a gyfarwyddir

- 1.3 Mae Arweiniad Statudol Adran 3 yr STPCD yn cynnwys y datganiad : *'Dylai'r corff perthnasol sicrhau... eu bod yn ymgynghori â'r holl staff ar galendr blynyddol o gyfarfodydd staff, ymgynghoriadau â rhieni a gweithgareddau eraill'*.
- 1.4 Dylai cynrychiolwyr yr NASUWT dynnu sylw rheolwyr yr ysgol at hyn, gyda'r bwriad o sicrhau y cydymffurfir â'r darpariaethau a datblygu calendr blynyddol a chyllideb amser derbyniol a rhesymol sy'n cwmpasu'r amser a gyfarwyddir. Mae hyn yn bwysig iawn i bob athro, ond mae'n arbennig o arwyddocaol ar gyfer athrawon rhan amser gan fod eu cyflog a'u hamser gweithio yn cael eu meincodi mewn cymhariaeth â chyflog ac amser gweithio athro llawn amser sy'n gwneud swydd debyg.
- 1.5 Mae'r calendr yn rhan hanfodol o fynd i'r afael â llwyth gwaith ac oriau gwaith gormodol, a dylai gyfrannu at gyflwyno'r hawl cytundebol i gydbwysedd rhwng gwaith a bywyd.

Cyllideb amser a chalendrau

- 1.6 Dylai pob athro unigol nad ydynt yn cael eu talu ar y golofn arweinyddol gael cyllideb amser sy'n manylu ar sut y dyrennir y 1,265 awr o amser a bennir yn y contract ar gyfer cyfarwyddyd rhesymol gan y pennaeth. Ar ôl eu cyhoeddi, ni ddylai hyn newid oni bai bod amgylchiadau eithriadol, a hynny dim ond mewn ymgynghoriad â'r athro.
- 1.7 Bydd sesiynau ysgol yn y 195 diwrnod pan fo angen i athrawon fod ar gael i weithio yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r oriau cyfeiriedig.
- 1.8 Dylid cyhoeddi calendr o gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn academaidd cyn dechrau'r flwyddyn academaidd. Dylai dyddiau'r wythnos pan fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar ddiwedd y sesiynau ysgol gael eu nodi fel y gall athrawon gynllunio eu gweithgareddau personol. Mae hyn hefyd yn hanfodol ar gyfer athrawon sydd â chyfrifoldebau gofalwr. Ar ôl eu cyhoeddi, ni ddylai'r dyddiau a nodwyd gael eu newid oni bai bod amgylchiadau eithriadol, a hynny dim ond mewn ymgynghoriad â'r athro.
- 1.9 Dylai cynrychiolwyr yr NASUWT sicrhau bod ymgynghori ar y calendr blynyddol a'r gyllideb

¹ Mewn rhai academiâu, efallai fod gan athrawon gontractau sydd wedi amrywio'r darpariaethau hyn. Fodd bynnag, rhaid i bob contract bennu'r diwrnodau a'r oriau y dylai athrawon fod ar gael ar gyfer gweithio a dylai'r rhain fod yn amser wedi'i gyfarwyddo a'r holl egwyddorion perthnasol.

amser yn cynnwys yr hyn a elwir yn 'amser clustogi' ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Os yw hyn yn cael ei gyfeirio, mae'n cael ei gynnwys yn y gyllideb amser.

Dylai aelodau a chynrychiolwyr yr NASUWT ddefnyddio'r canllawiau a ganlyn wrth ymgymryd ag ymgynghoriad ar galendr amser a gyfarwyddir yr ysgolion i roi cyfarwyddiadau gweithredu cenedlaethol 10 ac 11 ar waith. Dylai aelodau a chynrychiolwyr yr NASUWT geisio sicrhau'r darpariaethau hyn yng nghalendr amser a gyfarwyddir yr ysgol.

Cyfarfodydd

- 1.10 Mae'r NASUWT o'r farn na ddylai athrawon nad ydynt ar y golofn arweinyddiaeth fod yn bresennol mewn mwy nag un cyfarfod yr wythnos y tu allan i amserau sesiynau disgyblion.
- 1.11 Dylai'r rhai ar y golofn arweinyddiaeth geisio cytuno ar derfyn ar nifer y cyfarfodydd maent yn mynd iddynt bob wythnos y tu allan i amserau sesiynau'r ysgol. Mae'r hawl i sicrhau cydbwysedd boddhaol rhwng gwaith a bywyd hefyd yn berthnasol iddynt nhw.
- 1.12 Fel arfer, ni ddylai cyfarfodydd bara mwy nag awr, a dylent gael agendâu wedi eu cyhoeddi, cadeiryddiaeth effeithiol a chanlyniadau clir. Ni ddylai athrawon ddarparu 'cefnogaeth ysgrifenyddol' mewn cyfarfodydd drwy gymryd cofnodion ffurfiol neu nodiadau air am air.
- 1.13 Ni ellir gorfodi athrawon i fynd i gyfarfodydd yn ystod yr awr ginio. Ni ddylid eu hannog na rhoi pwysau arnynt i wirfoddoli i wneud hynny. Ni ddylid trefnu cyfarfodydd yn ystod yr egwyl ginio.

Ymgynghori â rhieni

- 1.14 Mae'r NASUWT yn argymhell y dylai athrawon fynd i un ymgynghoriad â rhieni fesul blwyddyn ar gyfer pob grŵp blwyddyn. Dylai'r cyfarfodydd hyn gael eu cyfrif fel amser a gyfarwyddir ac a nodwyd yn y calendr o gyfarfodydd.
- 1.15 Mewn wythnos lle mae cyfarfod ymgynghori rhieni wedi cael ei drefnu, ni ddylid trefnu cynnal unrhyw gyfarfod arall y tu allan i sesiynau'r ysgol.

Nosweithiau agored

- 1.16 Nid oes yn rhaid i athrawon fynd i nosweithiau agored. Fodd bynnag, lle byddant yn cytuno i fod yn bresennol, dylai'r rhain fod yn gymwys ar gyfer amser a gyfarwyddir ac yn rhan o gyfanswm wythnosol cyfarfodydd.

Adroddiadau disgyblion

- 1.17 Dylid cyflwyno adroddiadau i rieni, gan gynnwys sylwadau gan athrawon, unwaith y flwyddyn.
- 1.18 Lle nad ydynt wedi gwneud hynny, dylai ysgolion ystyried cyflwyno system electronig ar gyfer cynhyrchu adroddiadau, sy'n cynnwys cronfa ddata o ymadroddion safonol y gellir eu teilwra i weddu'r rhan fwyaf o amgylchiadau. Nid oes llawer o bwynt ceisio bod yn wreiddiol ym mhob adroddiad na mynd y tu hwnt i fformat clir a chryno. Ni ddylid ymgymryd ag adroddiadau interim sy'n gofyn am sylwadau ysgrifenedig gan athrawon. Os yw'r ysgol yn penderfynu bod angen adroddiad interim, yna dylid gallu ei gynhyrchu'n electronig o wybodaeth/data a gofnodwyd gan yr athro ar un adeg yn y system asesu y cytunwyd arni.
- 1.19 Dylid pennu amser ar y calendr amser a gyfarwyddir ar gyfer paratoi adroddiadau. Mae rhai ysgolion yn defnyddio un o'r pum diwrnod heb ddisgyblion ar gyfer hyn.

Cyrff llywodraethu

- 1.20 Er mwyn lleihau'r baich gwaith ar arweinwyr a staff ysgolion, dylai cyrff llywodraethu adolygu:
 - amseroedd, hyd a pha mor aml y cynhelir cyfarfodydd;
 - nifer, amseroedd a hyd cyfarfodydd is-bwyllgorau;
 - y pwysau gweinyddol y gallent fod yn ei roi ar ysgolion ac ar arweinwyr ysgolion;
 - y galwadau a wneir gan y llywodraethwyr ar y pennaeth a'r athrawon i gynhyrchu gwybodaeth, adroddiadau neu i fynd i gyfarfodydd.
- 1.21 Ni ddylai athro na phennaeth ddarparu cymorth gweinyddol/clerigol i gyrff llywodraethu.

CYNRYCHIOLAETH AELODAU

O ddarllen cyfarwyddiadau gweithredu cenedlaethol yr NASUWT nad yw'n cynnwys streicio a'r canllawiau gweithredu cychwynnol, bydd yr aelodau wedi gweld ei bod yn bwysig iddynt weithredu ar y cyd.

Mewn llawer o ysgolion, mae Cynrychiolydd neu gyswllt gan yr NASUWT a fydd yn gweithredu ar ran yr aelodau. Mewn rhai ysgolion, fodd bynnag, nid oes Cynrychiolydd na chyswllt wedi cael ei nodi. Mae'n bwysig iawn ar yr adeg hanfodol hon i gael unigolyn o blith yr aelodau sy'n barod, o leiaf, i gyfleu gwybodaeth i'r pennaeth ar ran aelodau ac i dderbyn gwybodaeth gan reolwyr yr ysgol i'w throsglwyddo i'r aelodau ac i'r NASUWT i sicrhau y gellir rhoi cyngor a chymorth priodol.

Os nad oes Cynrychiolydd yn yr ysgol, dylai aelodau, fel mater o frys, ddod at ei gilydd i nodi rhywun a fyddai'n barod i weithredu yn y modd hwn.

Mae'n bwysig, yn enwedig yn ystod adegau o weithredu, bod aelodau'n gweithredu ar y cyd ac yn cefnogi ei gilydd.

Os nad oes neb yn barod i weithredu fel Cynrychiolydd neu eich bod chi mewn ysgol gyda dim ond un neu ddau aelod o'r NASUWT, mae'n bwysig iawn eich bod yn cysylltu â'r NASUWT ar unwaith am gyngor a chefnogaeth.

Manylion cyswilt NASUWT

NASUWT Cymru

Clos Greenwood

Parc Busnes Porth Caerdydd

Caerdydd CF23 8RD

Ffôn: 029 2054 6080

E-bost: rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk

Gwefan Gweithredu Diwydiannol NASUWT

www.nasuwt.org.uk/IndustrialActionWales



Gwefan: www.naswt.org.uk/IndustrialAction

Yr undeb athrawon mwyaf yng Nghymru